Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Pwyllgor Gwaith, 28/09/21 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, D.L.Jones, C.Larsen (Cadeirydd), I.C.Thomas, R Thomas, C.Williams

---

1. **Ymddiheuriadau**

Dim

2. **Datgan Buddiant Personol**

Dim

3. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)**

Dim

4. **Gwaith Amrywiol**

Cynhaliwyd trafodaeth ac adolygu'r sefyllfa o ran y canlynol:

- **Swyddog Cynnal a Chadw**

Llongyfarchwyd y Cyngor Tref ar y gwaith o ran codi sbwriel ac o ran torri gwair a gofynnwyd i'r Clerc basio'r neges i'r Swyddog Cynnal a Chadw.

- **Chwyn**

Nodwyd fod y sefyllfa wedi gwella o ran chwyn, a beth sy'n bwysig yw beth rydym yn ei wneud y flwyddyn nesaf, hynny yw y dylid chwistrellu ym mis Mai yn ytrach nag ym mis Gorffennaf. Yn ogystal roedd angen trafodaeth buan o ran y "deep clean".

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc drefnu cyfarfod efo'r Cadeirydd, Cyngor Gwynedd a Hwb i drafod materion fel y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwyn y flwyddyn nesaf a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Hwb a Chyngor Gwynedd o ran y "deep clean" (unfrydol).

- **Llochesi Bysus**

Nodwyd bod gwaith ar lochesi newydd efo sgriniau CGI ar waith yn Waterloo Port a Lôn Campbell.

O ran llochesi'r Cyngor Tref nad oedd gwaith atgyweirio angen ei wneud dim ond gwaith glanhau i'r Swyddog Cynnal a Chadw.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc a'r Cynghorydd Ioan C.Thomas gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn cael gwared â'r graffiti sarhaus ar y lloches bws ger yr Empire (unfrydol).

5. Casglu Sbwriel

Cyflwynwyd adroddiad gan y Clerc ar gasglu sbwriel.

Nodwyd:

(1) Yn y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 13eg o Orffennaf cyflwynwyd gohebiaeth oedd wedi dod i law gan Sioned Huws o ran casglu sbwriel, a phenderfynwyd:

"(1) Gofyn i'r Clerc ymgynnull Grŵp Tasg a Gorffen i edych ar yr argymhellion yn yr ohebiaeth, gan ddod ag argymhellion i'r cyfarfod nesaf.
(2) Y dylai'r Grŵp Tasg a Gorffen gynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd, Y Cynghorydd Ann Hopcyn, y Clerc, Sioned Huws, Cheryl o Tesco ac Alison o Morrisons."

(2) Erbyn hyn roedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod dwy waith a nodir y pwyntiau gweithredu / syniadau isod.

Cyfarfod 17eg o Awst:

- Angen cysylltu efo busnesau er mwyn codi ymwybyddiaeth, a gofyn iddynt wneud mwy o ran lleihau sbwriel.
- Y dylai'r Cyngor Tref edrych i mewn i fod yn dref di-blastig.
- Gwahodd cynrychiolydd o Gyngor Gwynedd i'r cyfarfod nesaf.
- Gwahodd cynrychiolydd o Costa, McDonalds ac Asda i'r cyfarfod nesaf.
- Gwahodd cynrychiolydd o'r Galeri i'r cyfarfod nesaf.
- Nodwyd yr angen i gydweithio efo Ysgol Syr Hugh Owen, yn benodol o ran cwrs y Bagoloriaeth (mae modiwl yn y cwrs o'r enw Menter Dinasyddiaeth).

Cyfarfod 15fed o Fedi:

- Neges eisoes wedi ei roi i'r Arweinwyr Tîm yng Nghyngor Gwynedd mai i'r Cyngor Tref mae Ken yn gweithio iddo
- Angen ystyried y posibilrwydd o dreialu casgliadau sbwriel fin nos
- Angen defnyddio be mae Ken yn sylwi arno ac anfon y dystiolaeth at Steffan
- Angen trefnu cyfarfod rhwng Ken / Arweinydd Tîm / Peter / Sion

- Roedd yn anodd i Gyngor Gwynedd ganfod staff wrth gefn ("relief")
- Y dylid ystyried defnyddio mwy o Orfodaeth a rhoi dirwyon allan i'r rhai oedd yn amharchu'r dref
- Angen gweithio efo busnesau ac ysgolion. Cyn Covid roedd Cyngor Gwynedd efo trelar yn mynd o amgylch ysgolion
- Roedd Steffan am anfon manylion Bangor di-blastig i Sion
- Yr angen i gydlynu biniau / casglu sbwriel. Yn y lleoedd mwyaf problemus, e.e. strydoedd mwyaf cul, byddai'n gymorth os byddai'r tîm glanhau yn dilyn y cerbyd casglu mor agos wedi'r drefn casglu â phosib
- Yr angen i leihau'r costau trwy gael pobl i ystyried eu cyfrifoldebau
- Dechrau ar y gwaith o ran Caernarfon di-blastig – edrych os oedd ymarfer dda yn rhywle arall?
- Angen ymgyrch fawr a dyddiad lansio'r flwyddyn nesaf
- Cysylltu efo Cwmni'r Frân Wen a Malcolm Allen i fod yn llais i'r ymgyrch
- Yr angen am lythyr i fusnesau i ofyn iddynt leihau gwastraff plastig
- Roedd cymunedau glan a thaclus yn flaenoriaeth gan Gyngor Gwynedd
- Gangiau Cymunedol – oes cyfle i ail-gyflwyno'r math yma o ddarpariaeth?
- Y Cyngor Tref i edrych ar gynhyrchu pamffled efo cyngor o ran sut i leihau plastig

Nodwyd ymhellach bod angen gofyn i fusnesau beth oeddynt hwy yn ei wneud, bod Gorfodaeth yn bwysig ac y dylai unrhyw bamffled a gynhyrchir fod yn electronig yn hytrach nag ar bapur.

Nodwyd ymhellach y dylid holi Cyngor Gwynedd os oes posibilrwydd i osod biniau clyfar yng Nghaernarfon.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc anfon Cynllun Gweithredu i wireddu'r pwyntiau bwled uchod at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd (unfrydol).

6. Offer ar gyfer Caeau Chwarae

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod.

Nododd y Clerc mai dyma'r sefyllfa ddiweddaraf o ran yr offer unigol:

- Parc Stryd Santes Helen – Mainc Penrhyn – roedd Cyngor Gwynedd dal yn disgwyl i GL Jones orffen y meinciau, unwaith fydd hyn wedi digwydd, byddent yn trefnu i'w gosod.
- Parc yn Dre - Bwrdd Picnic - Cyngor Gwynedd wedi gwrthod y cynnig gan nad ydynt yn rhoi byrddau picnic yn eu meysydd chwarae oherwydd y problemau mae'n gallu ei greu, yn enwedig gyda phlant

hŷn yn ymgynnull yn hwyrach yn y dydd, yn creu llanast ac ar adegau yfed cwrw a gadael sbwriel.
- Parc ger Bron y Garth – y Clerc wedi cadarnhau efo Cyngor Gwynedd fod lle i fainc arall yno
- Cae Chwarae Bro Helen – angen trafod mainc ymhellach

Penderfynwyd (unfrydol) nodi'r wybodaeth, a gofyn i'r Clerc:
(1) Drafod ymhellach efo Cyngor Gwynedd o ran gosod mainc, yn hytrach na bwrdd, yng Nghae Chwarae Bro Helen.
(2) Edrych ar y sefyllfa mewn parciau fel Cae Glyn.
(3) Edrych ar Fwrdd Cyfathrebu ym Mharc Coed Helen.
(4) Datgan wrth Gyngor Gwynedd y dylai'r gwaith gael ei gwblhau, a'r arian wedi ei wario, cyn y flwyddyn nesaf.

7. Arwyddion Croeso i Gaernarfon

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc ar yr opsiynau o ran yr uchod.

Nodwyd:
(1) Bod 7 arwydd croeso i Gaernarfon, ar y prif ffyrdd i mewn i'r dref a hefyd yn yr orsaf fysiau, a bod un o'r arwyddion wedi diflannu.
(2) Lleolir yr arwyddion yn:

Ffordd Waunfawr
Muriau Park
Ffordd Bangor
Ffordd Llanberis (Cibyn)
Ffordd Bethel
Gorsaf Fysiau x2

(3) Nad yw'r gwaith celf gwreiddiol gyda ni ac felly ar gais y pwyllgor mae swyddogion y Cyngor wedi derbyn pris a phroflen am arwydd newydd. Mae angen penderfynu ar broflen a phenderfynu os mai trwsio un arwydd yn unig ydi'r dymuniad neu newid y saith arwydd er mwyn cysondeb ac fel rhan o adnewyddu achlysurol.
(4) Y briff gwreiddiol oedd cysoni'r arwyddion gyda'r gwefan i greu delwedd fwy corfforaethol. Felly mae proflen 1 yn dilyn templed y gwefan a hefyd yn defnyddio'r llun mwyaf addas oddi ar y gwefan. Byddai angen tal trwyddedu ychwanegol o £47.99 i brynu trwydded "extended" ar gyfer y llun gan ei fod am gael ei weld mwy na 500,000 o weithiau.
(5) Gellir gweld y telerau cyfreithiol ar gyfer defnyddio'r llun yn fan hyn https://stock.adobe.com/in/license-terms.
(6) Bod swyddogion y Cyngor yn credu bod trwydded "extended" yn ddigonol ar gyfer y defnydd arfaethedig, ond mae Adobe wedi gwrthod cadarnhau hyn.
(7) Felly gwnaed ymholiadau gyda Panorama am lun, ac mae proflen 2 yn defnyddio'r llun yma. Cost trwydded ar gyfer y llun yma ydi £150. Mae'r ffotograffydd wedi cadarnhau hawl i'w ddefnyddio at y pwrpas

arfaethedig a hefyd at unrhyw bwrpas arall yr hoffai'r Cyngor ei ddefnyddio.

	Cost Trwyddedu	Cost prynu a gosod un arwydd. (cost fesul arwydd gan gynnwys cost trwyddedu)	Cost prynu a gosod saith arwydd (cost fesul arwydd gan gynnwys trwyddedu)
Proflen 1	£47.99	£230 (£278)	£1260 (£187)
Proflen 2	£150	£230 (£380)	£1260 (£202)

(8) Y codwyd y cwestiwn gan y Pwyllgor Gwaith o ddefnyddio logo safle treftadaeth y byd ar yr arwyddion. Mae'r logo yn cael ei reoli yn dynn ac mae'r broses o gael caniatâd i'w ddefnyddio yn araf. Mae cais (a phroflenni) wedi ei ddanfon at UNESCO yn gofyn am ganiatâd. Mae angen penderfyniad a ydym am ei defnyddio neu beidio os daw caniatâd. Heb ganiatâd ni fyddwn yn gallu defnyddio'r logo.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Y dylid newid yr holl arwyddion.

(2) Y dylid disgwyl am y penderfyniad o ran defnyddio logo safle treftadaeth y byd, hyd yn oed os fydd hyn yn cymryd amser, gan fod cael defnydd o'r arwydd yn bwysig.

(3) Y dylid edrych ar opsiynau eraill ar gyfer yr arwyddion, er enghraifft mwy neu arwyddion heb lun o gwbl a dod ag opsiynau yn ôl i'r pwyllgor hwn.

8. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfynwyd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

9. Parc Coed Helen

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf.

Nodwyd:

(1) Bod Cyngor Gwynedd bellach wedi rhyddhau'r ddogfennaeth i'n cyfreithiwr ni, ac rydym yn aros iddo wirio a chwblhau dogfennau i'w cynnig i'r holl rhanddeiliaid.

(2) Bu i Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd lusgo eu traed am wyth mis, a bod oedi wedi bod o ran ein Cyfreithiwr ni hefyd.

(3) Bod Gwynedd wedi rhoi rhybudd i adael y tŷ ac i adael swydd i Ofalwr y parc cyn bod y gwaith papur trosglwyddo wedi ei gwblhau a'i

gyflwyno i'r Cyngor Tref, er eu bod wedi cytuno nad oedd gwneud hyn yn syniad da ac wedi penderfynu aros.

(4) Eu bod wedi rhoi dechrau Ionawr fel dyddiad diweddu swydd a thenantiaeth.

(5) Bod Cyngor Gwynedd wedi gofyn a fyddwn ni yn fodlon trefnu cyfarfodydd brys o'r Cyngor Tref l'w cynorthwyo efo'r sefyllfa roeddynt wedi ei greu.

Nododd y Clerc ei fod yn teimlo na ddylid brysio'r gwaith am y rhesymau canlynol:

- Nid staff y Cyngor nac amserlen y Cyngor ydi'r gwir oedi - ond aros am gyfreithwyr a tydi mwy o gyfarfodydd Cyngor ddim yn mynd i newid hwn.
- Unwaith y byddwn wedi pennu dyddiad mae angen i'r Cyngor Tref sicrhau'r capasiti i gyflawni'r gwaith sydd ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni gan Ofalwr y parc.
- Ei bod yn well negodi gyda'r rhanddeiliaid nes bod cytundeb yn hytrach na gorfodi rhywbeth er mwyn taro ryw ddyddiad arbennig nad yw o'n dewis ni.

Bydd gan y Dirprwy Glerc gyfarfod gyda staff Gwynedd ar y 30ain o Fedi i drafod y mater.

Roedd y dogfennau wedi bod gyda'n cyfreithiwr ni ers yr 17eg o Awst ac, er cysylltu yn gyson nid oes gwybodaeth am ba hyd gymrith y gwaith. Felly mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r cyfreithiwr ar y 6ed o Hydref. Nad oed unrhyw beth i'w wneud ar y prosiect yma nes fydd gennym dogfennau gan y cyfreithiwr i'w cynnig i'r rhanddeiliaid.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Datgan yn glir na all y Cyngor Tref gymryd Parc Coed Helen drosodd ym mis Ionawr 2022 am y rhesymau a amlinellir uchod.

(2) Dylid anelu at ddyddiad ddim hwyrach na'r 1af o Ebrill 2022 os oedd amgylchiadau'n caniatáu.

Gorffennodd y cyfarfod am 6.55 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____